# Ffedereiddio Ysgolion

## Beth mae hyn yn ei olygu?








**Ymgynghori gyda plant a phobl ifanc -**

**Ysgol Abercaseg ac Ysgol Pen-y-Bryn**

# Y Cynnig

Mae Cyrff Llywodraethol Ysgol Abercaseg ac Ysgol Pen-y-Bryn wedi gofyn am gymorth Adran Addysg Cyngor Gwynedd i ffedereiddio'r ddwy ysgol.

Beth mae hyn yn ei olygu i chi fel disgybl?

Mae'r ddogfen hon yn ceisio ateb y cwestiwn yma...

Mae angen i bawb roi eu barn ar yr opsiwn i ffedereiddio Ysgol Abercaseg ac Ysgol Pen-y-Bryn - Gelwir y broses yma yn **Ymgynghori**.

# Manteision Ffedereiddio

- Gwella ansawdd addysg
- Gwell arweinyddiaeth
- Rhannu offer chwaraeon a TGCh
- Rhannu a datblygu gwybodaeth a sgiliau
- Darparu cyfleodd gwell i ddisgyblion gymdeithasu
- Does dim angen symud o ysgol i ysgol

# Beth mae'r newid yma yn ei olygu?

Ni fydd ffedereiddio'r ddwy ysgol yn golygu unrhyw newid mawr

Bydd Ysgol Abercaseg ac Ysgol Pen-y-Bryn yn parhau fel dwy ysgol ar wahân

Bydd un Pennaeth yn gyfrifol am y ddwy ysgol ac yn rhannu ei hamser yn deg rhwng y ddau safle

Ni fydd unrhyw newid i'r wisg ysgol

Ni fydd unrhyw newid i enw eich ysgol

Ni fydd disgwyliad i blant nac athrawon presennol i symud o ysgol i ysgol

# Sut i ymateb?

## Mae eich barn chi yn bwysig

- Rydym eisiau gwybod sut ydych chi'n teimlo am hyn ac i wrando ar eich barn
- Mae croeso i unrhyw ddisgybl anfon sylwadau i'r Cyngor



# Angen mwy o wybodaeth?

- Am fwy o wybodaeth, edrychwch ar safle we'r Cyngor - www.gwynedd.gov.uk/trefniadaethysgolion

- Gallwch gysylltu gyda'r Cyngor drwy e-bostio:

  trefniadaeth.ysgolion@gwynedd.gov.uk

- Gallwch anfon llythyr neu sylwadau at:

  Swyddfa Moderneiddio Addysg,
  Cyngor Gwynedd Council
  Pencadlys, Stryd y Jêl
  Caernarfon
  Gwynedd
  LL55 1SE